Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2024 Rhif 1251 (Cy. 209)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

## Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Anifeiliaid (Awdurdodiadau) a Defnyddiau Bwyd Anifeiliaid a Fwriedir at Ddibenion Maethol Penodol (Diwygio Rheoliad y Comisiwn (EU) 2020/354) (Cymru) 2024

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth, o ran Cymru, mewn perthynas ag awdurdodiadau ychwanegion bwyd anifeiliaid, ac mewn perthynas â defnydd o fwyd anifeiliaid at ddiben maethol penodol.

Gwneir Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn (rheoliadau 3 i 11, ac Atodlenni 1 i 20) drwy arfer pwerau yn Rheoliad (EC) Rhif 1831/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ychwanegion sydd i'w defnyddio mewn maeth anifeiliaid (EUR 2003/1831). Mae Rhan 2 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas ag awdurdodi rhoi ychwanegion bwyd anifeiliaid penodol ar y farchnad, eu prosesu a'u defnyddio.

Mae rheoliad 3, ac Atodlenni 1 i 20, yn darparu ar gyfer awdurdodi ychwanegion bwyd anifeiliaid.

- Mae Atodlen 1 yn cynnwys awdurdodiad newydd ar gyfer paratoad o gelad cromiwm o DL-methionin (rhif adnabod GB4d0001).
- Mae Atodlen 2 yn cynnwys adnewyddiad o awdurdodiad paratoad o *Saccharomyces cerevisiae* (MUCL 39885) (rhif adnabod 4b1710), ac awdurdodiad newydd sy'n estyn y defnydd awdurdodedig i gwmpasu rhywogaethau/categorïau ychwanegol o anifeiliaid).
- Mae Atodlen 3 yn cynnwys awdurdodiad newydd ar gyfer paratoad o *Pediococcus*

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*acidilactici* (CNCM I-4622) (rhif adnabod 4d1712).

- Mae Atodlenni 4 a 5 yn cynnwys adnewyddiadau o awdurdodiadau (ag addasiad) paratoadau o fonensin sodiwm a gynhyrchir drwy eplesu â *Streptomyces cinnamonensis* 28682 (NBIMCC 3419) (cludwyr: perlit ac (yn y drefn honno) calsiwm carbonad neu fran gwenith) (rhif adnabod 51701), ac awdurdodiad newydd sy'n estyn y defnydd awdurdodedig i gwmpasu categori ychwanegol o anifeiliaid. Yr addasiadau wrth adnewyddu'r awdurdodiad yw:
  - — Cywiriad i'r disgrifiad o rywogaeth/categori anifeiliaid (twrci) a gwmpesir.
  - — Dileu'r gofyniad am gyfnod cadw'n ôl o 1 diwrnod (cyn cigydda).
- Mae Atodlen 6 yn cynnwys adnewyddiad o awdurdodiad (ag addasiad) paratoad o 6-ffytas (EC 3.1.3.26) a gynhyrchir drwy eplesu â *Komagataella phaffii* (DSM 23036) (rhif adnabod 4a16), ac awdurdodiad newydd sy'n estyn y defnydd awdurdodedig i gwmpasu rhywogaethau/categorïau ychwanegol o anifeiliaid. Gweler rheoliad 12 ar gyfer darpariaeth drosiannol. Yr addasiadau wrth adnewyddu'r awdurdodiad yw:
  - — Mae enw'r straen bacterol wedi ei ddiweddaru i *Komagataella phaffii* (*Komagataella pastoris* yn flaenorol).
  - — Mae gofyniad o ran defnydd a restrir o dan "darpariaethau eraill" (sy'n ymwneud â chynnwys ffosfforws mewn bwyd anifeiliaid) wedi ei ddileu.
- Mae Atodlen 7 yn cynnwys adnewyddiad o awdurdodiadau (ag addasiad) o baratoad o *Bacillus velezensis* (DSM 15544) (rhif adnabod 4b1820), ac awdurdodiad newydd sy'n estyn ac yn cydgrynhoi y defnydd awdurdodedig i gwmpasu rhywogaethau ychwanegol o anifeiliaid. Gweler rheoliad 13 ar gyfer darpariaeth drosiannol. Yr addasiadau wrth adnewyddu'r awdurdodiad yw:
  - — Mae enw deiliad yr awdurdodiad wedi ei ddiweddaru.
  - — Mae enw'r straen bacterol wedi ei ddiweddaru i *Bacillus velezensis* (*Bacillus subtilis* yn flaenorol).
  - — Mae'r gofyniad isafswm cynnwys ar gyfer ieir a fegir ar gyfer dodwy wedi ei leihau (o $5 \times 10^8$ i $3 \times 10^8$ CFU/kg) i alinio â'r

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

gofyniad isafswm cynnwys ar gyfer rhywogaethau/categorïau eraill o adar.

- Mae Atodlen 8 yn cynnwys awdurdodiad newydd ar gyfer paratoad o L-histidin monohydroclorid monohydrad a gynhyrchir drwy eplesu ag *Escherichia coli* K-12 (KCCM 80212) (rhif adnabod 3c352i).
- Mae Atodlen 9 yn cynnwys awdurdodiad newydd ar gyfer paratoad o L-tryptoffan a gynhyrchir drwy eplesu ag *Escherichia coli* (KCCM 80210) (rhif adnabod 3c440i).
- Mae Atodlen 10 yn cynnwys awdurdodiad newydd ar gyfer paratoad o L-lysin sylffad a gynhyrchir drwy eplesu â *Corynebacterium glutamicum* (KCCM 80227) (rhif adnabod 3c324i).
- Mae Atodlen 11 yn cynnwys awdurdodiad newydd o'r sylwedd hydrocsianisol bwtyleiddiedig (BHA) (rhif adnabod 1b320) fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer cathod. Mae BHA fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer cathod yn 'cynnyrch presennol' ar wahân at ddibenion Erthygl 10 o EUR 2003/1831 – gweler rheoliad 8 ar gyfer dileu'r statws 'cynnyrch presennol' .
- Mae Atodlen 12 yn cynnwys awdurdodiad newydd o baratoad o sylfaen L-lysin (hylif) a gynhyrchir drwy eplesu â *Corynebacterium glutamicum* (KCCM 80183) (rhif adnabod 3c320).
- Mae Atodlen 13 yn cynnwys awdurdodiad newydd o'r sylwedd L-lysin monohydroclorid (pur yn dechnegol) a gynhyrchir drwy eplesu â *Corynebacterium glutamicum* (KCCM 80183) (rhif adnabod 3c322ii).
- Mae Atodlen 14 yn cynnwys awdurdodiad newydd o'r sylwedd disodiwm 5'-gwanilad (GMP) a gynhyrchir drwy eplesu â *Corynebacterium stationis* (KCCM 10530) ac *Escherichia coli* K-12 (KFCC 11067) (rhif adnabod 2b627i).
- Mae Atodlen 15 yn cynnwys awdurdodiad newydd o baratoad o fwramidas a gynhyrchir drwy eplesu â *Trichoderma reesei* (DSM 32338) (rhif adnabod 4d16).
- Mae Atodlen 16 yn cynnwys awdurdodiad newydd o baratoad o ffytomenadion (fitamin $K_1$) (rhif adnabod 3a712).
- Mae Atodlen 17 yn cynnwys adnewyddiad o awdurdodiad (ag addasiad) o baratoad o gelad copor o analog hydrocsi o fethionin (rhif adnabod 3b410i). Gweler rheoliad 16 ar gyfer

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

darpariaeth drosiannol. Yr addasiadau wrth adnewyddu yw:

— Mae'r rhif adnabod wedi ei newid o 3b4.10 i 3b410i.

— Mae newidiadau i gyfansoddiad y paratoad awdurdodedig.

— Mae uchafswm ar gyfer nicel (20 ppm) wedi ei ychwanegu.

— Mae'r dulliau dadansoddi wedi eu diweddaru.

- Mae Atodlen 18 yn cynnwys adnewyddiad o awdurdodiad (ag addasiad) o baratoad o gelad manganîs o analog hydrocsi o fethionin (rhif adnabod 3b510). Gweler rheoliad 16 ar gyfer darpariaeth drosiannol. Yr addasiadau wrth adnewyddu'r awdurdodiad yw:

  — Mae'r rhif adnabod wedi ei newid o 3b5.10 i 3b510.

  — Mae newidiadau i fanyleb y paratoad awdurdodedig.

  — Mae uchafswm ar gyfer nicel (170 ppm) wedi ei ychwanegu.

  — Mae'r dulliau dadansoddi wedi eu diweddaru.

- Mae Atodlen 19 yn cynnwys adnewyddiad o awdurdodiad (ag addasiad) o baratoad o gelad zinc o analog hydrocsi o fethionin (rhif adnabod 3b610). Gweler rheoliad 16 ar gyfer darpariaeth drosiannol. Yr addasiadau wrth adnewyddu'r awdurdodiad yw:

  — Mae'r rhif adnabod wedi ei newid o 3b6.10 i 3b610.

  — Mae newidiadau i fanyleb y paratoad awdurdodedig.

  — Mae uchafswm ar gyfer nicel (1.7 ppm) wedi ei ychwanegu.

  — Mae'r dulliau dadansoddi wedi eu diweddaru.

- Mae Atodlen 20 yn cynnwys awdurdodiad newydd ar gyfer paratoad o ffwmonisin esteras (EC 3.1.1.87) (rhif adnabod 1m03i).

Mae rheoliad 3(2) yn darparu bod awdurdodiadau a roddir gan y Rheoliadau hyn yn ddilys am gyfnod o ddeng mlynedd yn unol ag Erthygl 9(7) o EUR 2003/1831. Mae hyn yn ddarostyngedig i Erthygl 14(4) o'r Rheoliad hwnnw, sy'n darparu ar gyfer estyn cyfnod yr awdurdodiad o dan amgylchiadau penodol pan fo cais i adnewyddu wedi ei gyflwyno.

Mae rheoliadau 4 i 6 yn diwygio offerynnau penodol sy'n cynnwys awdurdodiadau ar gyfer yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid *Bacillus velezensis* (DSM 15544).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Mae'r awdurdodiadau wedi eu haddasu i ddiweddaru enw deiliad yr awdurdodiad, ac i ddiweddaru enw'r straen bacterol *Bacillus velezensis* (*Bacillus subtilis* C-3102 yn flaenorol).

Mae rheoliad 4 hefyd yn diwygio Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2016/897 (EUR 2016/897) i ddileu'r awdurdodiad ar gyfer *Bacillus velezensis* (DSM 15544) mewn perthynas ag ieir dodwy. Mae'r awdurdodiad hwnnw wedi ei ddisodli gan yr awdurdodiad a geir yn Atodlen 7, ac wedi ei gydgrynhoi ynddo.

Mae rheoliad 7 yn diwygio Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/804 (EUR 2019/804), sy'n cynnwys awdurdodiad ar gyfer yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid burum wedi ei seleneiddio a gynhyrchir drwy eplesu â *Saccharomyces cerevisiae* CNCM I-3060, anactifedig, sydd â'r rhif adnabod 3b810. Mae'r awdurdodiad wedi ei addasu mewn perthynas â chynnwys seleniwm a ganiateir yr ychwanegyn, ac i gyflwyno gofyniad mewn perthynas â photensial ysgeintio'r ychwanegyn. Gweler rheoliad 14 ar gyfer darpariaeth drosiannol.

Mae rheoliad 8 yn gwneud darpariaeth i ddileu'r awdurdodiad mewn perthynas â hydrocsianisol bwtyleiddiedig (BHA) fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer cathod fel 'cynnyrch presennol' o dan Erthygl 10 o EUR 2003/1831. Er mwyn aros ar y farchnad fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer cathod, rhaid i'r ychwanegyn gydymffurfio ag amodau'r awdurdodiad newydd sydd wedi ei gynnwys yn Atodlen 11 i'r Rheoliadau hyn. Ond mae rheoliad 15 yn gwneud darpariaeth drosiannol i ganiatáu i gynhyrchion presennol (na allant gydymffurfio â'r awdurdodiad newydd) a gynhyrchir ac a labelir o fewn cyfnodau penodedig barhau i gael eu marchnata a'u defnyddio hyd nes y bydd stociau wedi eu disbyddu.

Mae rheoliadau 9 i 11 yn diwygio nifer o offerynnau i ddiweddaru enw deiliad yr awdurdodiad.

Mae Rhan 3 (rheoliadau 12 i 16) yn cynnwys darpariaethau trosiannol mewn perthynas ag awdurdodiadau ychwanegion bwyd anifeiliaid sydd wedi eu haddasu neu eu hadnewyddu gan y Rheoliadau hyn. Mae'r darpariaethau trosiannol yn caniatáu parhau i gynhyrchu a labelu ychwanegion bwyd anifeiliaid penodedig a chynhyrchion sy'n eu cynnwys, am gyfnodau amser cyfyngedig, o dan amodau'r awdurdodiad a oedd yn gymwys yn union cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym. Caniateir marchnata a defnyddio cynhyrchion a gynhyrchir ac a labelir o fewn y cyfnodau trosiannol hyd nes y bydd stociau wedi eu disbyddu.

Gwneir Rhan 4 (rheoliad 17) drwy arfer pwerau yn Neddf Amaethyddiaeth 1970 (1970 p. 40). Mae

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Rheoliad 17 yn diwygio Rheoliad y Comisiwn (EU) 2020/354 sy'n sefydlu rhestr o ddefnyddiau arfaethedig o fwyd anifeiliaid a fwriedir at ddibenion maethol penodol (EUR 2020/354). Gwneir diwygiad i nodwedd faethol hanfodol ar gyfer marchnata yn gyfreithlon fwyd anifeiliaid y bwriedir ei ddefnyddio i leihau'r risg o dwymyn llaeth a chlwy'r llaeth is-glinigol.

Gwneir Rhan 5 (rheoliadau 18 i 20, ac Atodlen 21) drwy arfer pwerau yn EUR 2003/1831 ac mae'n cynnwys dirymiadau o ganlyniad i ddarpariaeth a wneir gan Ran 2.

Mae rheoliadau 18 a 19 yn gwneud mân ddiwygiadau canlyniadol.

Mae rheoliad 20 ac Atodlen 21 yn dirymu, o ran Cymru, offerynnau a ddisbyddwyd, gan gynnwys y rhai sy'n cynnwys awdurdodiadau ymlaen llaw ar gyfer yr ychwanegion bwyd anifeiliaid sydd bellach wedi eu hadnewyddu gan y Rheoliadau hyn (sydd wedi eu cynnwys yn Atodlenni 2, 4 i 7, a 17 i 19).

Gellir cael rhagor o wybodaeth, gan gynnwys mewn perthynas ag unrhyw ddogfennaeth y cyfeirir ati yn yr Atodlenni, gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd yng Nghymru, Llawr 4, Adeilad Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ neu drwy ysgrifennu at: regulated.products.wales@food.gov.uk.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2024 Rhif 1251 (Cy. 209)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

## Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Anifeiliaid (Awdurdodiadau) a Defnyddiau Bwyd Anifeiliaid a Fwriedir at Ddibenion Maethol Penodol (Diwygio Rheoliad y Comisiwn (EU) 2020/354) (Cymru) 2024

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *27 Tachwedd 2024* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *29 Tachwedd 2024* |
| *Yn dod i rym* | *20 Rhagfyr 2024* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan Erthyglau 9(1), 10(5) a 18A(3) o Reoliad (EC) Rhif 1831/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ychwanegion sydd i'w defnyddio mewn maeth anifeiliaid(**1**), ac adran 74A(1)(a) a (b) o Ddeddf Amaethyddiaeth 1970(**2**).

(**1**) EUR 2003/1831, a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/654, 2022/377 a 1351. Diwygiwyd O.S. 2019/654 gan O.S. 2020/1504. Mae'r termau "prescribe" ac "appropriate authority" wedi eu diffinio yn Erthygl 2 o EUR 2003/1831. Mae Erthygl 9(1) yn gymwys mewn perthynas ag addasiadau neu adnewyddiadau yn unol ag Erthyglau 13 neu 14 yn y drefn honno.

(**2**) 1970 p. 40. Mewnosodwyd adran 74A gan baragraff 6 o Atodlen 4 i Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (p. 68); diwygiwyd yr adran honno wedi hynny gan adran 33(3) o Ddeddf Amaethyddiaeth 2020 (p. 21); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.. Diffinnir y termau "the Ministers", "prescribed" a "regulations" yn adran 66(1) o Ddeddf Amaethyddiaeth 1970. Trosglwyddwyd swyddogaethau a oedd gynt yn arferadwy gan "the Ministers", i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan O.S. 1999/672. Mae'r swyddogaethau hynny bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Cynhaliwyd ymgynghoriad fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**1**).

# RHAN 1

## Cyflwyniad

**Enwi, rhychwant, cymhwyso a dod i rym**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Anifeiliaid (Awdurdodiadau) a Defnyddiau Bwyd Anifeiliaid a Fwriedir at Ddibenion Maethol Penodol (Diwygio Rheoliad y Comisiwn (EU) 2020/354) (Cymru) 2024.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn—

(a) yn rhychwantu Cymru a Lloegr;

(b) yn gymwys o ran Cymru;

(c) yn dod i rym ar 20 Rhagfyr 2024.

**Dehongli**

**2.**—(1) Mae i ymadroddion Cymraeg a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn sy'n cyfateb i ymadroddion Saesneg yn Rheoliad (EC) Rhif 1831/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ychwanegion sydd i'w defnyddio mewn maeth anifeiliaid neu Reoliad (EC) Rhif 767/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar roi bwyd anifeiliaid ar y farchnad a'i ddefnyddio(**2**) yr un ystyr ag yn Rheoliad (EC) Rhif 1831/2003 neu Reoliad (EC) Rhif 767/2009, yn y drefn honno.

(2) Yn Atodlenni 1 i 20, mae i ymadroddion Cymraeg a ddefnyddir i gyfeirio at rywogaethau neu gategorïau o anifeiliaid sy'n cyfateb i ymadroddion Saesneg a ddefnyddir yn Atodiad 4 (categorïau a diffiniadau o anifeiliaid targed etc.) i Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 429/2008 ar reolau manwl ar gyfer gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 1831/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran llunio a chyflwyno ceisiadau ac asesu ac awdurdodi ychwanegion bwyd anifeiliaid(**3**) yr un ystyr ag yn yr Atodiad hwnnw.

---

(**1**) EUR 2002/178, a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/641. Diwygiwyd O.S. 2019/641 gan O.S. 2020/1504.

(**2**) EUR 2009/767, a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/654, 2022/1351. Diwygiwyd O.S. 2019/654 gan O.S. 2020/1504.

(**3**) EUR 2008/429, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

# RHAN 2

## Awdurdodiadau ychwanegion bwyd anifeiliaid

### Awdurdodiadau

**3.**—(1) Mae Atodlenni 1 i 20 yn cynnwys awdurdodiadau ychwanegion bwyd anifeiliaid.

(2) Yn ddarostyngedig i Erthygl 14(4) (adnewyddu awdurdodiad) o Reoliad (EC) Rhif 1831/2003, mae'r awdurdodiadau a nodir yn Atodlenni 1 i 20 yn peidio â chael effaith ar ddiwedd 19 Rhagfyr 2034.

### Addasu awdurdodiadau: paratoad o *Bacillus velezensis* (DSM 15544) (rhif adnabod 4b1820)

**4.**—(1) Mae Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2016/897 sy'n ymwneud ag awdurdodi paratoad o *Bacillus subtilis* (C-3102) (DSM 15544) fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer ieir dodwy a physgod addurnol (deiliad yr awdurdodiad Asahi Calpis Wellness Co Ltd, a gynrychiolir yn yr Undeb Ewropeaidd gan Pen & Tec Consulting S.L.U.) a Rheoliadau diwygio (EC) Rhif 1444/2006, (EU) Rhif 333/2010 ac (EU) Rhif 184/2011(**1**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Hepgorer Erthyglau 2 i 4.

(3) Yn yr Atodiad, yn y tabl—

(a) yn yr ail golofn (enw deiliad yr awdurdodiad), yn lle "Asahi Calpis Wellness Co. Ltd, represented in the European Union by Pen & Tec Consulting S.L.U." rhodder "Asahi Biocycle Co., Ltd";

(b) yn y drydedd golofn (yr ychwanegyn) a'r bedwaredd golofn (cyfansoddiad, fformiwla gemegol, disgrifiad, dull dadansoddi), ar gyfer "*Bacillus subtilis* C-3102", ym mhob lle mae'n digwydd, rhodder "*Bacillus velezensis"*;

(c) yn y bumed golofn (rhywogaeth neu gategori o anifail), hepgorer "Laying hens";

(d) Yn y seithfed golofn (isafswm cynnwys), hepgorer "$3 \times 10^{8}$".

**5.**—(1) Yn Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2017/2312 sy'n ymwneud ag awdurdodi defnydd newydd o baratoad o *Bacillus subtilis* C-3102 (DSM 15544) fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer hychod, perchyll sugno a chŵn (deiliad yr

---

(**1**) EUR 2016/897. Gweler rheoliad 13 o'r Rheoliadau hyn ar gyfer darpariaeth drosiannol. Diwygiwyd EUR 2016/897 cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu gan Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2020/146 (EUR 2020/146). Mae EUR 2020/146 wedi ei ddirymu gan reoliad 20 o'r Rheoliadau hyn, ac Atodlen 21 iddynt.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

awdurdodiad Asahi Calpis Wellness Co. Ltd, a gynrychiolir yn yr Undeb Ewropeaidd gan Pen & Tec Consulting S.L.U.) (**1**), yn yr Atodiad, diwygir y tabl fel a ganlyn.

(2) Yn yr ail golofn (enw deiliad yr awdurdodiad), yn lle "Asahi Calpis Wellness Co. Ltd, represented in the European Union by Pen & Tec Consulting S.L.U." rhodder "Asahi Biocycle Co., Ltd".

(3) Yn y drydedd golofn (yr ychwanegyn), yn lle "*Bacillus subtilis*" rhodder "*Bacillus velezensis*".

(4) Yn y bedwaredd golofn (cyfansoddiad, fformiwla gemegol, disgrifiad, dull dadansoddi)—

(a) yn yr adran o dan y pennawd "*Additive composition",* yn lle "*Bacillus subtilis* C-3102" rhodder "*Bacillus velezensis*";

(b) yn yr adran o dan y pennawd "*Characterisation of the active substance*, yn lle"*Bacillus subtilis"* rhodder "*Bacillus velezensis"*.

**6.**—(1) Yn Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2018/1081 sy'n ymwneud ag awdurdodi paratoad o *Bacillus subtilis* C-3102 (DSM 15544) fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer moch i'w pesgi (deiliad yr awdurdodiad Asahi Calpis Wellness Co. Ltd, a gynrychiolir yn yr Undeb Ewropeaidd gan Pen & Tec Consulting S.L.U.) (**2**), yn yr Atodiad, diwygir y tabl fel a ganlyn.

(2) Yn yr ail golofn (enw deiliad yr awdurdodiad), yn lle "Asahi Calpis Wellness Co. Ltd, represented in the European Union by Pen & Tec Consulting S.L.U." rhodder "Asahi Biocycle Co., Ltd".

(3) Yn y drydedd golofn (yr ychwanegyn) a'r bedwaredd golofn (cyfansoddiad, fformiwla gemegol, disgrifiad, dull dadansoddi), yn lle "*Bacillus subtilis* C-3102", ym mhob lle y mae'n digwydd, rhodder "*Bacillus velezensis*".

**Addasu awdurdodiad: burum wedi ei seleneiddio a gynhyrchir drwy eplesu â *Saccharomyces cerevisiae* CNCM I-3060, anactifedig (rhif adnabod 3b810)**

**7.**—(1) Yn Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/804 sy'n ymwneud ag adnewyddu awdurdodiad

(**1**) EUR 2017/2312. Gweler rheoliad 13 o'r Rheoliadau hyn ar gyfer darpariaeth drosiannol. Diwygiwyd EUR 2017/2312 cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu gan Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2020/146 (EUR 2020/146). Mae EUR 2020/146 wedi ei ddirymu gan reoliad 20 o'r Rheoliadau hyn, ac Atodlen 21 iddynt.

(**2**) EUR 2018/1081 Gweler rheoliad 13 o'r Rheoliadau hyn ar gyfer darpariaeth drosiannol. Diwygiwyd EUR 2018/1081 cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu gan Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2020/146 (EUR 2020/146). Mae EUR 2020/146 wedi ei ddirymu gan reoliad 20 o'r Rheoliadau hyn, ac Atodlen 21 iddynt.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

ffurf organig o seleniwm a gynhyrchir gan *Saccharomyceas cerevisiae* CNCM I-3060 ac o selenomethionin a gynhyrchir gan *Saccharomyces cerevisiae* NCYC R397 fel ychwanegion bwyd anifeiliaid ar gyfer pob rhywogaeth o anifail(**1**), yn yr Atodiad, mae'r cofnod ar gyfer "3b810" wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn y bedwaredd golofn (cyfansoddiad, fformiwla gemegol, disgrifiad, dull dadansoddi), yn lle'r adran o dan y pennawd "Additive composition" rhodder—

> "*Additive composition*
>
> Preparation of organic selenium (Se) produced by fermentation with *Saccharomyces cerevisiae* (CNCM I-3060) containing 2000 to 3500 mg Se/kg with the below components:
>
> - Organic selenium: 97% minimum of total selenium
> - Selenomethionine: 63% minimum of total selenium".

(3) Yn y nawfed golofn (darpariaethau eraill), ar ôl pwynt 4 mewnosoder—

> "5. The dusting potential of the additive must ensure a maximum selenium exposure of 0.2 mg Se/$m^3$."

**Dileu awdurdodiad hydrocsianisol bwtyleiddiedig fel cynnyrch presennol at ddibenion Erthygl 10 o Reoliad (EC) Rhif 1831/2003**

**8.** Ni chaniateir i hydrocsianisol bwtyleiddiedig (E 320) gael ei roi ar y farchnad na'i ddefnyddio fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer cathod mwyach o dan Erthygl 10 o Reoliad (EC) No 1831/2003(**2**).

**Newidiadau o ran deiliad awdurdodiad: diwygio Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 887/2011 a Rheoliadau Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2017/961 a 2020/1395**

**9.**—(1) Mae Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 887/2011 sy'n ymwneud ag awdurdodi paratoad o *Enterococcus faecium* CECT 4515 fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer ieir i'w pesgi (deiliad yr

(**1**) EUR 2019/804. Gweler rheoliad 14 o'r Rheoliadau hyn ar gyfer darpariaeth drosiannol.

(**2**) Ond gweler rheoliad 15 o'r Rheoliadau hyn ar gyfer darpariaeth drosiannol. Gweler Atodlen 11 i'r Rheoliadau hyn ar gyfer awdurdodiad newydd i hydrocsianisol bwtyleiddiedig fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer cathod.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

awdurdodiad Evonik Nutrition & Care GmbH) (**1**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn yr Atodiad, yn yr ail dabl (awdurdodiad yn dod i ben 28 Mehefin 2027), yn yr ail golofn (enw deiliad yr awdurdodiad), yn lle "Evonik Nutrition & Care GmbH)" rhodder "Evonik Operations GmbH".

**10.**—(1) Mae Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2017/961 dyddiedig 7 Mehefin 2017 sy'n ymwneud ag awdurdodi paratoad o *Enterococcus faecium* CECT 4515 fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer perchyll wedi eu diddyfnu, a defnydd newydd mewn dŵr i'w yfed ar gyfer perchyll wedi eu diddyfnu ac ieir i'w pesgi, ac sy'n diwygio Rheoliad (EC) Rhif 2036/2005 a Rheoliad (EU) Rhif 887/2011 (deiliad yr awdurdodiad Evonik Nutrition & Care GmbH)(**2**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodiad 1, yn y tabl, yn yr ail golofn (enw deiliad yr awdurdodiad), yn lle "Evonik Nutrition & Care GmbH)" rhodder "Evonik Operations GmbH".

**11.**—(1) Mae Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2020/1395 sy'n ymwneud ag adnewyddu awdurdodiad o *Bacillus amyloliquefaciens* CECT 5940 fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer ieir i'w pesgi, a'i awdurdodiad ar gyfer ieir a fegir ar gyfer dodwy, ac sy'n diddymu Rheoliad (EC) Rhif 1292/2008 (deiliad yr awdurdodiad Evonik Nutrition & Care GmbH) (**3**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn yr Atodiad, yn y tabl, yn yr ail golofn (enw deiliad yr awdurdodiad), yn lle"Evonik Nutrition & Care GmbH" rhodder "Evonik Operations GmbH".

## RHAN 3

## Darpariaethau Trosiannol

### Darpariaeth drosiannol: 6-ffytas (EC 3.1.3.26) a gynhyrchir drwy eplesu â *Komagataella phaffii* (*Komagataella pastoris* yn flaenorol) (DSM 23036) (rhif adnabod 4a16)

**12.**—(1) Caniateir i'r ychwanegyn bwyd anifeiliaid perthnasol a'r rhag-gymysgeddau, y bwyd anifeiliaid cyfansawdd neu ddeunyddiau bwyd anifeiliaid sy'n ei gynnwys, a gynhyrchir ac a labelir cyn diwedd 19 Mehefin 2025 gan gydymffurfio ag amodau'r awdurdodiad a'r gofynion labelu sy'n gymwys yn union cyn 20 Rhagfyr 2024, barhau i gael ei roi neu eu

(**1**) EUR 2011/887, a ddiwygiwyd cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu gan Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2017/173 a 961.
(**2**) EUR 2017/961.
(**3**) EUR 2020/1395.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

rhoi ar y farchnad a'i ddefnyddio neu eu defnyddio hyd nes y bydd stociau wedi eu dihysbyddu.

(2) Ym mharagraff (1), mae'r cyfeiriad at yr "ychwanegyn bwyd anifeiliaid perthnasol" yn gyfeiriad at yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid 6-ffytas (EC 3.1.3.26) (rhif adnabod 4a16)(**1**) fel y'i hawdurdodwyd yn union cyn 20 Rhagfyr 2024 o dan Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 98/2012 sy'n ymwneud ag awdurdodi 6-ffytas (EC 3.1.3.26) a gynhyrchir gan *Pichia pastoris* (DSM 23036) fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer ieir a thwrcwn i'w pesgi, ieir a fegir ar gyfer dodwy, tyrcwn a fegir ar gyfer bridio, ieir dodwy, rhywogaethau eraill o adar i'w pesgi ac ar gyfer dodwy, perchyll wedi eu diddyfnu, moch i'w pesgi a hychod(**2**).

**Darpariaeth drosiannol: *Bacillus velezensis* (*Bacillus subtilis* C-3102 yn flaenorol) (DSM 15544) (rhif adnabod 4b1820)**

**13.**—(1) Caniateir i unrhyw sylwedd neu gynnyrch a labelwyd "*Bacillus subtilis* C-3102" neu a labelwyd fel sylwedd neu gynnyrch sy'n cynnwys "*Bacillus subtilis* C-3102", ond sydd fel arall wedi cael ei gynhyrchu a'i labelu yn unol ag awdurdodiad sydd wedi ei gynnwys mewn offeryn a grybwyllir yn rheoliadau 4 i 6 o'r Rheoliadau hyn, barhau i gael ei roi ar y farchnad a'i ddefnyddio o dan yr awdurdodiad hwnnw.

(2) Caniateir i'r ychwanegyn bwyd anifeiliaid perthnasol a'r rhag-gymysgeddau sy'n ei gynnwys, a gynhyrchir ac a labelir cyn diwedd 19 Mehefin 2025 gan gydymffurfio ag amodau'r awdurdodiad a'r gofynion labelu sy'n gymwys yn union cyn 20 Rhagfyr 2024, barhau i gael ei roi neu eu rhoi ar y farchnad a'i ddefnyddio neu eu defnyddio hyd nes y bydd stociau wedi eu disbyddu.

(3) Caniateir i fwyd anifeiliaid cyfansawdd a deunyddiau bwyd anifeiliaid sy'n cynnwys yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid perthnasol ac a fwriedir ar gyfer anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd, a gynhyrchir ac a labelir cyn diwedd 19 Rhagfyr 2025 gan gydymffurfio ag amodau'r awdurdodiad a'r gofynion labelu sy'n gymwys yn union cyn 20 Rhagfyr 2024, barhau i gael ei roi neu eu rhoi ar y farchnad a'i ddefnyddio neu eu defnyddio hyd nes y bydd stociau wedi eu disbyddu.

(4) Caniateir i fwyd anifeiliaid cyfansawdd a deunyddiau bwyd anifeiliaid sy'n cynnwys yr

(**1**) Gweler Atodlen 6 i'r Rheoliadau hyn ar gyfer yr awdurdodiad perthnasol a adnewyddwyd ar gyfer yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid hwn.

(**2**) EUR 2012/98, a ddiwygiwyd cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu gan Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2016/348 (EUR 2016/348). Mae EUR 2012/98 wedi ei ddirymu gan reoliad 20 o'r Rheoliadau hyn, ac Atodlen 21 iddynt.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

ychwanegyn bwyd anifeiliaid perthnasol ac a fwriedir ar gyfer anifeiliaid nad ydynt yn cynhyrchu bwyd, a gynhyrchir ac a labelir cyn diwedd 19 Rhagfyr 2026 gan gydymffurfio ag amodau'r awdurdodiad a'r gofynion labelu sy'n gymwys cyn 20 Rhagfyr 2024, barhau i gael ei roi neu eu rhoi ar y farchnad a'i ddefnyddio neu eu defnyddio hyd nes y bydd stociau wedi eu disbyddu.

(5) Yn y rheoliad hwn, mae cyfeiriadau at yr "ychwanegyn bwyd anifeiliaid perthnasol" yn gyfeiriadau at yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid *Bacillus velezensis* (*Bacillus subtilis* C-3102 yn flaenorol) (DSM 15544), sydd â'r rhif adnabod 4b1820(**1**), fel y'i hawdurdodwyd yn union cyn 20 Rhagfyr 2024 o dan—

(a) Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 333/2010 sy'n ymwneud ag awdurdodi defnydd newydd o *Bacillus su*btilis C-3102 (DSM 15544) fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer perchyll wedi eu diddyfnu(**2**);

(b) Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 184/2011 sy'n ymwneud ag awdurdodi *Bacillus subtilis* C-3102 (DSM 15544) fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer ieir a fegir ar gyfer dodwy, tyrcwn, mân rywogaethau adar ac adar addurnol ac adar hela eraill(**3**);

(c) Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2016/897 sy'n ymwneud ag awdurdodi paratoad o *Bacillus subtilis* (C-3102) (DSM 15544) fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer ieir dodwy a physgod addurniadol(**4**);

(d) Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/893 sy'n ymwneud ag adnewyddu awdurdodiad o *Bacillus subtilis* DSM 15544 fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer ieir i'w pesgi(**5**).

---

(**1**) Gweler Atodlen 7 i'r Rheoliadau hyn ar gyfer awdurdodiad yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid perthnasol a adnewyddwyd ac a gydgrynhowyd.

(**2**) EUR 2010/333, a ddiwygiwyd cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu gan Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2020/146 (EUR 2020/146). Mae EUR 2010/333 a 2020/146 wedi eu dirymu gan reoliad 20 o'r Rheoliadau hyn, ac Atodlen 21 iddynt.

(**3**) EUR 2011/184, a ddiwygiwyd cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu gan Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2020/146 (EUR 2020/146). Mae EUR 2011/184 a 2020/146 wedi eu dirymu gan reoliad 20 o'r Rheoliadau hyn, ac Atodlen 21 iddynt

(**4**) Gweler rheoliad 4 o'r Rheoliadau hyn ar gyfer diwygiadau i EUR 2016/897.

(**5**) EUR 2019/893, a ddiwygiwyd cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu gan Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2020/146 (EUR 2020/146). Mae EUR 2019/893 a 2020/146 wedi eu dirymu gan reoliad 20 o'r Rheoliadau hyn, ac Atodlen 21 iddynt.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Darpariaeth drosiannol: Burum wedi ei seleneiddio a gynhyrchir drwy eplesu â *Saccharomyces cerevisiae* CNCM I-3060, anactifedig (rhif adnabod 3b810)**

**14.**—(1) Caniateir i'r ychwanegyn bwyd anifeiliaid perthnasol a'r rhag-gymysgeddau sy'n ei gynnwys, a gynhyrchir ac a labelir cyn diwedd 19 Mehefin 2025 gan gydymffurfio ag amodau'r awdurdodiad a'r gofynion labelu sy'n gymwys yn union cyn 20 Rhagfyr 2024, barhau i gael ei roi neu eu rhoi ar y farchnad a'i ddefnyddio neu eu defnyddio hyd nes y bydd stociau wedi eu disbyddu.

(2) Caniateir i fwyd anifeiliaid cyfansawdd a deunyddiau bwyd anifeiliaid sy'n cynnwys yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid perthnasol ac a fwriedir ar gyfer anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd, a gynhyrchir ac a labelir cyn diwedd 19 Rhagfyr 2025 gan gydymffurfio ag amodau'r awdurdodiad a'r gofynion labelu sy'n gymwys yn union cyn 20 Rhagfyr 2024, barhau i gael ei roi neu eu rhoi ar y farchnad a'i ddefnyddio neu eu defnyddio hyd nes y bydd stociau wedi eu disbyddu.

(3) Caniateir i fwyd anifeiliaid cyfansawdd a deunyddiau bwyd anifeiliaid sy'n cynnwys yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid perthnasol ac a fwriedir ar gyfer anifeiliaid nad ydynt yn cynhyrchu bwyd, a gynhyrchir ac a labelir cyn diwedd 19 Rhagfyr 2026 gan gydymffurfio ag amodau'r awdurdodiad a'r gofynion labelu sy'n gymwys cyn 20 Rhagfyr 2024, barhau i gael ei roi neu eu rhoi ar y farchnad a'i ddefnyddio neu eu defnyddio hyd nes y bydd stociau wedi eu disbyddu.

(4) Yn y rheoliad hwn, mae cyfeiriadau at yr "ychwanegyn bwyd anifeiliaid perthnasol" yn gyfeiriadau at yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid burum wedi ei seleneiddio a gynhyrchir drwy eplesu â *Saccharomyces cerevisiae* CNCM I-3060, anactifedig, sydd â'r rhif adnabod 3b810, fel y'i hawdurdodwyd yn union cyn 20 Rhagfyr 2024 o dan Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/804(**1**).

**Darpariaeth drosiannol: Hydrocsianisol bwtyleiddiedig fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer cathod**

**15.**—(1) Caniateir i hydrocsianisol bwtyleiddiedig fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer cathod a'r rhag-gymysgeddau sy'n ei gynnwys, a gynhyrchir ac a labelir cyn diwedd 19 Mehefin 2025 gan gydymffurfio ag amodau'r awdurdodiad a'r gofynion labelu sy'n gymwys yn union cyn 20 Rhagfyr 2024, barhau i gael

(**1**) Gweler rheoliad 7 o'r Rheoliadau hyn ar gyfer diwygiadau i EUR 2019/804.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

ei roi neu eu rhoi ar y farchnad a'i ddefnyddio neu eu defnyddio hyd nes y bydd stociau wedi eu disbyddu.

(2) Caniateir i fwyd anifeiliaid cyfansawdd a deunyddiau bwyd anifeiliaid sy'n cynnwys hydrocsianisol bwtyleiddiedig ac a fwriedir ar gyfer cathod, a gynhyrchir ac a labelir cyn diwedd 19 Rhagfyr 2026 gan gydymffurfio ag amodau'r awdurdodiad a'r gofynion labelu sy'n gymwys yn union cyn 20 Rhagfyr 2024, barhau i gael ei roi neu eu rhoi ar y farchnad a'i ddefnyddio neu eu defnyddio hyd nes y bydd stociau wedi eu disbyddu.

**Darpariaethau trosiannol: Celadau copor, manganîs, a zinc o analog hydrocsi o fethionin (rhifau adnabod 3b410i, 3b510 a 3b610 yn y drefn honno)**

**16.**—(1) Caniateir i ychwanegyn bwyd anifeiliaid perthnasol a'r rhag-gymysgeddau sy'n ei gynnwys, a gynhyrchir ac a labelir cyn diwedd 19 Mehefin 2025 gan gydymffurfio ag amodau'r awdurdodiad a'r gofynion labelu sy'n gymwys yn union cyn 20 Rhagfyr 2024, barhau i gael ei roi neu eu rhoi ar y farchnad a'i ddefnyddio neu eu defnyddio hyd nes y bydd stociau wedi eu disbyddu.

(2) Caniateir i fwyd anifeiliaid cyfansawdd a deunyddiau bwyd anifeiliaid sy'n cynnwys ychwanegyn bwyd anifeiliaid perthnasol ac a fwriedir ar gyfer anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd, a gynhyrchir ac a labelir cyn diwedd 19 Rhagfyr 2025 gan gydymffurfio ag amodau'r awdurdodiad a'r gofynion labelu sy'n gymwys yn union cyn 20 Rhagfyr 2024, barhau i gael ei roi neu eu rhoi ar y farchnad a'i ddefnyddio neu eu defnyddio hyd nes y bydd stociau wedi eu disbyddu.

(3) Caniateir i fwyd anifeiliaid cyfansawdd a deunyddiau bwyd anifeiliaid sy'n cynnwys ychwanegyn bwyd anifeiliaid perthnasol ac a fwriedir ar gyfer anifeiliaid nad ydynt yn cynhyrchu bwyd, a gynhyrchir ac a labelir cyn diwedd 19 Rhagfyr 2026 gan gydymffurfio ag amodau'r awdurdodiad a'r gofynion labelu sy'n gymwys cyn 20 Rhagfyr 2024, barhau i gael ei roi neu eu rhoi ar y farchnad a'i ddefnyddio neu eu defnyddio hyd nes y bydd stociau wedi eu disbyddu.

(4) Yn y rheoliad hwn, mae cyfeiriadau at "ychwanegyn bwyd anifeiliaid perthnasol" yn gyfeiriadau at bob un o'r ychwanegion bwyd anifeiliaid a ganlyn.

*Celad copor o analog hydrocsi o fethionin*

(a) Yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid celad copor o analog hydrocsi o fethionin, sydd â'r rhif

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

adnabod 3b410i (3b4.10 yn flaenorol)(**1**) fel y'i hawdurdodwyd yn union cyn 20 Rhagfyr 2024 o dan Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 349/2010 sy'n ymwneud ag awdurdodi celad copor o analog hydrocsi o fethionin fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer pob rhywogaeth o anifail(**2**).

*Celad manganîs o analog hydrocsi o fethionin*

(b) Yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid celad manganîs o analog hydrocsi o fethionin, sydd â'r rhif adnabod 3b510 (3b5.10 yn flaenorol)(**3**) fel y'i hawdurdodwyd yn union cyn 20 Rhagfyr 2024 o dan Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 350/2010 sy'n ymwneud ag awdurdodi celad manganîs o analog hydrocsi o fethionin fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer pob rhywogaeth o anifail(**4**).

*Celad zinc o analog hydrocsi o methionin*

(c) Yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid celad zinc o analog hydrocsi o fethionin, sydd â'r rhif adnabod 3b610 (3b6.10 yn flaenorol)(**5**) fel y'i hawdurdodwyd yn union cyn 20 Rhagfyr 2024 o dan Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 335/2010 sy'n ymwneud ag awdurdodi celad zinc o analog hydrocsi o fethionin fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer pob rhywogaeth o anifail(**6**).

---

(**1**) Gweler Atodlen 17 i'r Rheoliadau hyn ar gyfer awdurdodiad yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid hwn a adnewyddwyd.

(**2**) EUR 2010/349, a ddiwygiwyd cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu gan Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2018/1039 (EUR 2018/1039). Mae EUR 2010/349 wedi ei ddirymu gan reoliad 20 o'r Rheoliadau hyn, ac Atodlen 21 iddynt.

(**3**) Gweler Atodlen 18 i'r Rheoliadau hyn ar gyfer awdurdodiad yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid hwn a adnewyddwyd.

(**4**) EUR 2010/350. Mae EUR 2010/350 wedi ei ddirymu gan reoliad 20 o'r Rheoliadau hyn, ac Atodlen 21 iddynt.

(**5**) Gweler Atodlen 19 i'r Rheoliadau hyn ar gyfer awdurdodiad yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid hwn a adnewyddwyd.

(**6**) EUR 2010/335, a ddiwygiwyd cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu gan Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2016/1095 (EUR 2016/1095). Mae EUR 2010/335 wedi ei ddirymu gan reoliad 20 o'r Rheoliadau hyn, ac Atodlen 21 iddynt.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

## RHAN 4

### Defnydd o fwyd anifeiliaid a fwriedir at ddibenion maethol penodol

**Addasu nodwedd faethol hanfodol ar gyfer bwyd anifeiliaid a fwriedir i leihau'r risg o dwymyn llaeth a chlwy'r llaeth is-glinigol**

**17.**—(1) Yn Rheoliad y Comisiwn (EU) 2020/354 sy'n sefydlu rhestr o ddefnyddiau arfaethedig o fwyd anifeiliaid a fwriedir at ddibenion maethol penodol(**1**), yn yr Atodiad, yn Rhan B (rhestr o ddefnyddiau arfaethedig), diwygir y tabl fel a ganlyn.

(2) Yng nghofnod 60 (lleihau'r risg o dwymyn llaeth a chlwy'r llaeth is-glinigol), yng ngholofn rhif 2 (nodweddion maethol hanfodol), yn adran y cofnod sy'n dechrau â "Low cations/anions ratio", yn lle "Objective: 0 < DCAD$^{s}$ (mEq/kg dry matter) < 100" rhodder "Objective: Range from -200 mEq/kg dry matter DCAD$^{s}$ to <100 mEq/kg dry matter DCAD".

## RHAN 5

### Dirymiadau

**Diwygio Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2016/1095**

**18.** Yn Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2016/1095 sy'n ymwneud ag awdurdodi Zinc asetad deuhydrad, Zinc clorid anhydrus, Zinc ocsid, Zinc sylffad heptahydrad, Zinc sylffad monohydrad, celad Zinc o asidau amino hydrad, celad Zinc o hydrolysadau protein, celad Zinc o glycin hydrad (solet) a chelad Zinc o glycin hydra (hylif) fel ychwanegion bwyd anifeiliaid ar gyfer pob rhywogaeth o anifail(**2**), hepgorer Erthygl 4 (diwygio Rheoliad (EU) Rhif 335/2010).

**Diwygio Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2018/1039**

**19.** Yn Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2018/1039 sy'n ymwneud ag awdurdodi Copor(II) diacetad monohydrad, Copor(II) carbonad deuhydrosci monohydrad, Copor(II) clorid deuhydrad, Copor(II) ocsid, Copor(II) sylffad pentahydrad, celad Copor(II) o asidau amino hydrad, celad Copor(II) o hydrolysadau protein, celad Copor(II) o glycin hydrad (solet) a chelad Copor(II) o glycin hydrad (hylif) fel

(**1**) EUR 2020/354, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**2**) EUR 2016/1095.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

ychwanegion bwyd anifeiliaid ar gyfer pob rhywogaeth o anifail(**1**), hepgorer Erthygl 5 (diwygio Rheoliad (EU) Rhif 349/2010).

**Dirymiadau**

**20.** Mae'r offerynnau a restrir yn Atodlen 21 wedi eu dirymu.

*Sarah Murphy*
Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
27 Tachwedd 2024

(**1**) EUR 2018/1039.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

# YR ATODLENNI

## ATODLEN 1

Rheoliad 3(1)

## Awdurdodi paratoad o gelad cromiwm o DL-methionin (rhif adnabod GB4d0001) fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer buchod godro

Mae'r paratoad o gelad cromiwm o DL-methionin a bennir yn y tabl, sy'n perthyn i'r categori ychwanegion "ychwanegion sootechnegol" ac i'r grŵp gweithredol "sootechnegol arall", wedi ei awdurdodi fel ychwanegyn mewn maeth anifeiliaid yn ddarostyngedig i'r amodau a nodir yn y tabl.

| | |
|---|---|
| *Yr ychwanegyn* | Celad cromiwm o DL-methionin |
| *Rhif adnabod* | GB4d0001 |
| *Deiliad yr awdurdodiad* | Zinpro Animal Nutrition (Europe), Inc |
| *Categori ychwanegion* | Ychwanegion sootechnegol |
| *Grŵp gweithredol* | Sootechnegol arall |
| *Cyfansoddiad yr ychwanegyn* | Paratoad solet o geladau cromiwm (Cr) gyda DL-methionin gyda'r cydrannau a ganlyn:<br>• Calsiwm carbonad: 95.6%<br>• Cromiwm-DL-Methionin: 3.4%<br>• Olew llysiau: 1.0% |
| *Nodweddiad y sylwedd(au) actif* | Celad cromiwm o DL-methionin ($[CH_3S(CH_2)_2CH(NH_2)COO]_3$ Cr) |
| *Dulliau dadansoddi*[(1)] | I feintioli cromiwm yn yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid:<br>• Sbectrometreg màs â phlasma a gyplyswyd yn anwythol (ICP-MS) (BS EN 17053:2018[(2)])<br>I feintioli methionin yn yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid:<br>• Cromatograffaeth cyfnewid iönau a gyplysir â deilliant ôl-golofn a chanfod ffotometrig (IEC-VIS) (BS EN ISO 13903:2005[(3)])<br>I brofi ffurf geladedig yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid:<br>• Sbectrometreg isgoch canol (IR) ynghyd â chanfod cynnwys y cromiwm a'r methionin yn yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid |
| *Rhywogaeth neu gategori o anifail* | Buchod godro |
| *Oedran hynaf* | Dim |
| *Isafswm cynnwys*[(4)] | 0.2 mg/kg |
| *Uchafswm cynnwys*[(4)] | 0.5 mg/kg |
| *Darpariaethau eraill* | Rhaid nodi'r amodau storio a'r sefydlogrwydd o ran trin â gwres yn y cyfarwyddiadau ar gyfer defnyddio'r ychwanegyn bwyd anifeiliaid a'r rhag-gymysgedd |

(1) Mae manylion y dulliau dadansoddi wedi eu nodi yn y ddogfen sydd â'r cyfeirnod "Ares(2019)6115119 – 03/10/2019" a "JRC F.5/CvH/ZE/AS/Ares" ac a ddiweddarwyd ddiwethaf ar 18 Hydref 2019. Ar gael yn: https://joint-research-centre.ec.europa.eu/publications/fad-2018-0021_en.

(2) O dan y cyfeirnod BS EN 17053:2018 "Animal feeding stuffs: Methods of sampling and analysis. Determination of trace elements, heavy metals and other elements in feed by ICP-MS (multi-method)". Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig ar 28 Chwefror 2018 (ISBN 978 0 580 94471 0). Ar gael yn: https://knowledge.bsigroup.com.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(3) O dan y cyfeirnod BS EN ISO 13903:2005 “Animal feeding stuffs. Determination of amino acids content”. Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig ar 24 Hydref 2005 (ISBN 0 580 46218 8). Ar gael yn: https://knowledge.bsigroup.com.

(4) Cynnwys cromiwm (mg/kg o fwyd anifeiliaid cyflawn sydd â chynnwys lleithder o 12%).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

# ATODLEN 2

Rheoliad 3(1)

## Adnewyddu awdurdodiad paratoad o *Saccharomyces cerevisiae* (MUCL 39885) (rhif adnabod 4b1710) fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer perchyll wedi eu diddyfnu, a'i awdurdodi fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid gan estyn y defnydd presennol i gwmpasu pob *Suidae* heblaw hychod a pherchyll sugno, cathod, a chŵn

Mae'r paratoad o *Saccharomyces cerevisiae* (MUCL 39885) a bennir yn y tabl, sy'n perthyn i'r categori ychwanegion "ychwanegion sootechnegol" ac i'r grŵp gweithredol "sefydlogyddion fflora'r perfedd", wedi ei awdurdodi fel ychwanegyn mewn maeth anifeiliaid yn ddarostyngedig i'r amodau a nodir yn y tabl(**1**).

| | |
|---|---|
| *Yr ychwanegyn* | *Saccharomyces cerevisiae* (MUCL 39885) |
| *Rhif adnabod* | 4b1710 |
| *Deiliad yr awdurdodiad* | Prosol S.p.A |
| *Categori ychwanegion* | Ychwanegion sootechnegol |
| *Grŵp gweithredol* | Sefydlogyddion fflora'r perfedd |
| *Categori ychwanegion* | Paratoad solet o *Saccharomyces cerevisiae* (MUCL 39885) sy'n cynnwys isafswm o $1 \times 10^9$ o unedau ffurfio cytref (CFU)/g |
| *Nodweddiad y sylwedd(au) actif* | Celloedd hyfyw *Saccharomyces cerevisiae* (MUCL 39885) |
| *Dulliau dadansoddi*(1) | I gyfrifo:<br>• Y dull plât arllwys gan ddefnyddio agar CGYE (cloramffenicol, glwcos, echdynnyn burum) (BS EN 15789:2021(2))<br>I adnabod y straen burum:<br>• Y dull adwaith cadwynol polymerasau (PCR) (DD CEN/TS 15790:2008(3)) |
| *Rhywogaeth neu gategori o anifail* | • Pob rhywogaeth o *Suidae* heblaw perchyll sugno neu hychod<br>• Cathod<br>• Cŵn |
| *Oedran hynaf* | Dim |
| *Isafswm cynnwys*(4) | Ar gyfer *Suidae*:<br>• *Suidae* heblaw perchyll sugno, hychod a *Suidae* at ddibenion atgenhedlu: $3 \times 10^9$ CFU/kg<br>• *Suidae* at ddibenion atgenhedlu ac eithrio hychod: $6.4 \times 10^9$ CFU/kg<br>Ar gyfer cathod<br>• $7 \times 10^{10}$ CFU/kg<br>Ar gyfer cŵn:<br>• $7 \times 10^{10}$ CFU/kg |
| *Uchafswm cynnwys*(4) | Dim |
| *Darpariaethau eraill* | Rhaid nodi'r amodau storio yn y cyfarwyddiadau ar gyfer defnyddio'r ychwanegyn bwyd anifeiliaid a'r rhag-gymysgeddau |

(**1**) Mae'r awdurdodiad hwn yn cynnwys adnewyddu'r awdurdodiad a roddwyd o dan Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 170/2011 (EUR2011/170). Mae EUR 2011/170 wedi ei ddirymu gan reoliad 20 o'r Rheoliadau hyn, ac Atodlen 21 iddynt.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

